DIWRNOD RHYNGWLADOL Y MENYWOD

SYNIADAU AR GYFER GWEITHGAREDDAU (9-14 OED)

Cyflwyniad

Mae Diwrnod Rhyngwladol y Menywod yn cael ei ddathlu'n flynyddol ar 8 Mawrth. Mae'n ddiwrnod pan fydd pobl ledled y byd yn dod at ei gilydd i gydnabod cyflawniadau menywod a merched, yn ogystal ag i alw am weithredu pellach i gau'r bwlch rhwng y rhywiau – o ran cyflogau, gwaith, addysg a chyfleoedd eraill mewn bywyd.

Mae Oxfam yn rhoi menywod wrth wraidd ein holl waith. Nid yn unig am mai dyna'r peth iawn i'w wneud, ond oherwydd ei fod yn hanfodol yn ein brwydr dros fyd heb dlodi. Mae'r byd wedi gwneud cynnydd mawr yn erbyn tlodi yn ystod yr ychydig ddegawdau diwethaf. Fodd bynnag, mae miliynau o fenywod a merched yn parhau'n gaeth i fywydau llawn caledi a phryder, a hynny o ganlyniad i wahaniaethu a chamdriniaeth. Ond, dro ar ôl tro, rydym wedi gweld sut y mae menywod sy'n cael addysg, ac sydd wedyn yn ennill bywoliaeth deg a mwynhau bywydau annibynnol, yn gallu gadael tlodi y tu ôl iddynt – gan hebrwng eu teuluoedd a'u cymunedau gyda nhw.

Gallwch ddefnyddio'r syniadau canlynol ar gyfer gweithgareddau i gyflwyno materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb rhwng y rhywiau, i annog dysgwyr i feddwl yn feirniadol, ac i'w hysbrydoli i weithredu yn eu hysgolion a'u cymunedau eu hunain. Gellid defnyddio'r sioe sleidiau gysylltiedig mewn gwasanaeth, neu ar y cyd ag un neu ragor o'r gweithgareddau i gefnogi dull o ddysgu, meddwl a gweithredu ymhellach. Mae'n hawdd addasu'r gweithgareddau a'r sleidiau i weddu i anghenion dysgwyr iau a hŷn. Mae syniadau pellach a rhestr o adnoddau defnyddiol hefyd ar gael isod.

Nodwch: Yn dibynnu ar oedran y dysgwyr a'r cyd-destun, efallai y bydd athrawon hefyd am gydnabod a thrafod materion anghydraddoldeb sy'n gysylltiedig â Phobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol+.

Syniadau ar gyfer gweithgareddau

Equibingo (20 munud)

Nod: archwilio syniadau a gwybodaeth gyfredol y dysgwyr am statws menywod a dynion yn eu gwlad a ledled y byd; ac i ba raddau y maent yn credu bod menywod a dynion wedi cyflawni cydraddoldeb.

Nodwch: Mae hwn yn weithgaredd cyflym y gellir ei ddefnyddio i ennyn diddordeb y dysgwyr a'u bywiogi. Gall y cwestiynau gael eu haddasu i'w gwneud yn haws neu'n anos, yn unol â gallu ac oedran y grŵp.

- Y ffordd orau o gyflawni'r gweithgaredd hwn yw mewn man agored mawr, lle gall y dysgwyr symud o gwmpas yn rhydd. Os byddwch yn defnyddio ystafell ddosbarth, gallai fod yn ddefnyddiol gwthio'r desgiau a'r cadeiriau i un ochr yn gyntaf.
- Rhowch gopi yr un o Equibingo (Taflen gweithgaredd 1) i'r dysgwyr. Esboniwch mai nod Equibingo yw i ddysgwyr ryngweithio â'i gilydd ac ateb y cwestiynau ar y daflen cyn gynted â phosibl. Maent yn gwneud hyn trwy gasglu enw dysgwr gwahanol mewn ymateb i bob cwestiwn, a chofnodi'r enwau hyn ar y daflen. Y dysgwr sy'n casglu'r atebion i'r holl gwestiynau yn yr amser cyflymaf yw enillydd y gêm.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Nodwch: Yr atebion i gwestiynau 10, 11 a 12 yw: 1918, Nod Datblygu Cynaliadwy 5, ac 8 Mawrth, yn y drefn honno. Gweler y sioe sleidiau gysylltiedig i gael manylion pellach.

- Dylai Equibingo gymryd llai na 10 munud i'w chwarae. Os na fydd unrhyw ddysgwr wedi ateb y cwestiynau i gyd yn yr amser penodedig, yna'r 'enillydd' yw'r cyfranogwr sydd â'r nifer mwyaf o atebion.
- Dylai'r drafodaeth ddilynol ganolbwyntio ar ba un a yw'r dysgwyr o'r farn bod bywyd yn gydradd i ddynion a menywod a bechgyn a merched, a hynny yn eu cymuned, yn y Deyrnas Unedig ac yn fyd-eang. Tynnwch sylw at y ffaith nad yw dynion a menywod wedi bod yn gydradd yn hanesyddol, a bod llawer o anghydraddoldebau yn parhau yn yr 21ain ganrif. Os oedd y cyfranogwyr yn ei chael yn anodd ateb rhai cwestiynau, mae hyn yn adlewyrchu dyfnder yr anghydraddoldebau hyn. Er enghraifft, mae llawer o bobl yn ei chael yn llawer haws meddwl am seren chwaraeon gwrywaidd na seren chwaraeon benywaidd. Os yw dysgwyr yn cynnig safbwyntiau rhagfarnllyd ac ystrydebol, anogwch eraill i'w herio a mynd ati i archwilio ar ba dystiolaeth y mae'r syniadau a'r rhagdybiaethau hyn yn seiliedig.

Y llinell anghydraddoldeb (40 munud)

Nod: ystyried pa ffactorau (er enghraifft rhywedd) a allai effeithio ar y cyfleoedd mewn bywyd, y grym a'r dylanwad sydd gan rywun.

- Esboniwch fod y dysgwyr yn mynd i chwarae gêm i ymchwilio i ba ffactorau sy'n effeithio ar y cyfleoedd mewn bywyd, y grym a'r dylanwad sydd gan rywun. Efallai yr hoffech drafod meddyliau a syniadau cychwynnol y dysgwyr yn fyr. Beth y mae angen i ni ei wneud yn dda mewn bywyd? Pa ffactorau a allai effeithio ar y cyfleoedd mewn bywyd sydd gan rywun? Pam y mae gan rai pobl fwy o rym a dylanwad yn eu cymunedau nag eraill?
- Gofynnwch i'r dysgwyr ffurfio llinell yn un pen i'r ystafell, a rhowch un o'r Cardiau chwarae rôl (Taflen gweithgaredd 2) i bob un ohonynt. Fel arall, trefnwch y dysgwyr yn barau neu'n grwpiau o dri, a rhowch un o'r cardiau chwarae rôl i bob pâr neu grŵp.
- Esboniwch fod y cardiau chwarae rôl yn cynrychioli pobl ffuglennol sy'n byw mewn gwledydd gwahanol ledled y byd. Gofynnwch i'r dysgwyr dreulio ychydig funudau yn dychmygu bywyd bob dydd yr unigolyn y maent yn chwarae ei rôl ac i feddwl am enw i'w cymeriad.
- Darllenwch y rhestr o ddatganiadau isod, a gofynnwch i'r dysgwyr hynny y mae eu cymeriad yn cytuno â'r datganiad gymryd cam ymlaen. Os ydynt yn gweithio mewn grwpiau, rhowch amser i'r dysgwyr drafod a phenderfynu a fyddent yn cytuno â'r datganiad. Anogwch y grwpiau hynny sy'n ansicr sut i ateb i ofyn i chi am gyngor.
- Yn y pen draw, bydd y dysgwyr wedi cael eu gwasgaru ar draws yr ystafell yn ôl nifer y camau ymlaen y byddant wedi eu cymryd.

Datganiadau grym

1. Rwyt ti'n cael neu wedi cael addysg ysgol gynradd.
2. Gelli di fforddio bodloni dy anghenion sylfaenol.
4. Dwyt ti byth yn brin o fwyd.
5. Gelli di fforddio gweld meddyg a phrynu meddyginiaethau pan fydd gennyt broblemau iechyd.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

7. Mae gennyt y grym i ddylanwadu ar bobl yn dy gymuned.
8. Mae gennyt bobl sy'n gofalu amdanat ac yn dy warchod.
10. Mae gennyt ddigon o arian i arbed rhywfaint ar gyfer nes ymlaen.
11. Mae gennyt ddigon o amser sbâr ac arian i fwynhau gweithgareddau hamdden gyda ffrindiau.
12. Rwyt yn fodlon ar dy fywyd.
13. Rwyt ti'n byw mewn tŷ cadarn sy'n ddiogel rhag tywydd gwael.
14. Gelli fforddio mynd ar wyliau tramor o leiaf unwaith y flwyddyn.

- Ar ôl i chi ddarllen yr holl ddatganiadau yn uchel, gofynnwch i'r dysgwyr aros lle y maent a chyflwyno eu cymeriad i weddill y dosbarth. Anogwch y dysgwyr i roi rhesymau dros eu penderfyniadau ynghylch y nifer o gamau a gymerwyd ganddynt.
- Gofynnwch i'r dysgwyr a ydynt yn meddwl bod pob cymeriad wedi'i osod yn y man cywir mewn perthynas â'r lleill. Er enghraifft: A ydych yn meddwl y dylai'r dyn priod fod ymhellach ymlaen na'r ferch 12 oed? Anogwch drafodaethau lle mae yna anghytuno.
- Gofynnwch i'r dysgwyr nodi pa ffactorau a allai effeithio ar y cyfleoedd mewn bywyd, y grym a'r dylanwad sydd gan rywun, er enghraifft oedran, rhywedd, anabledd, gwrthdaro a thlodi. Tynnwch allan ohonynt y syniad o groestoriadoldeb: lle gall sawl ffactor effeithio'n negyddol ar bobl, gan arwain at we gymhleth o wahaniaethu ac anfanteision rhyng-gysylltiedig. Gofynnwch i'r dysgwyr nodi pa gymeriadau y maent yn meddwl y gellid effeithio arnynt mewn modd negyddol oherwydd eu rhywedd. Sut y gellid effeithio ar yr unigolyn hwn? Beth yw'r rheswm dros hyn yn eich barn chi? A ydych yn meddwl bod hyn yn deg? Yn eich barn chi, pa rai o'r cymeriadau hyn a allai fod fwyaf agored i effeithiau'r argyfwng hinsawdd, a pham?

Mesur y bwlch rhwng y rhywiau (45 munud+)

Nod: casglu, dehongli a chyflwyno data mewn bywyd go iawn sy'n ymwneud â chydraddoldeb rhywiol; dadansoddi ystadegau y mae dysgwyr yn dod i gysylltiad â nhw mewn bywyd bob dydd, a hynny mewn modd beirniadol.

- Defnyddiwch y sioe sleidiau i rannu ffeithiau a ffigurau sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb rhwng y rhywiau.
- Anogwch y dysgwyr i feddwl yn feirniadol am yr ystadegau hyn. Pa stori am anghydraddoldeb rhwng y rhywiau y mae'r ystadegau hyn yn ei hadrodd? O ble y mae'r data hyn yn dod? A yw'r niferoedd yn ddibynadwy? A ydych yn credu bod pawb yn cytuno â'r ffigurau hyn?
- Cefnogwch y dysgwyr i gasglu, dadansoddi a chyflwyno eu data eu hunain ar gydraddoldeb rhwng y rhywiau. Er enghraifft, gallai'r dysgwyr ymchwilio i sut y mae canran y merched yn yr ysgol wedi newid dros amser, neu'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn y Deyrnas Unedig, neu'r cynnydd a wnaed o ran dangosyddion eraill, er enghraifft marwolaethau mamau. Gallai'r dysgwyr greu ffeithlun, sioe sleidiau neu boster i rannu eu canfyddiadau ag eraill.
- Mae ffynonellau data defnyddiol yn cynnwys:
    - Data Agored Banc y Byd: data.worldbank.org/
    - Gapminder: www.gapminder.org/

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

- Adroddiad Byd-eang ar y Bwlch Rhwng y Rhywiau: https://www.weforum.org/reports/gender-gap-2020-report-100-years-pay-equality

Cydradd neu anghydradd yn y dyfodol? (45 mun+)

Nod: nodi a thrafod enghreifftiau o anghydraddoldeb rhwng y rhywiau yn ein cymdeithas, cyn myfyrio ar ba newidiadau yr hoffai'r dysgwyr eu gweld o ran y mater hwn yn y dyfodol.

Nodwch: Ymarfer mapio meddwl yw'r gweithgaredd hwn, sy'n helpu dysgwyr i ystyried a mynegi eu syniadau – yn rhai cadarnhaol a negyddol – am y dyfodol. I gael manylion pellach, gweler t. 18 o gyhoeddiad Oxfam, Dinasyddiaeth Fyd-eang yn yr Ystafell Ddosbarth: Canllaw i athrawon: www.oxfam.org.uk/cy-GB/education/resources/global-citizenship-in-the-classroom-a-guide-for-teachers

- Defnyddiwch y sioe sleidiau gysylltiedig i gyflwyno materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb rhwng y rhywiau. Er bod cynnydd aruthrol wedi'i wneud yn ystod y degawdau diwethaf, pwysleisiwch fod yna gryn dipyn i'w wneud eto cyn bod cyfleoedd mewn bywyd yn gydradd i fenywod a dynion a bechgyn a merched.
- Rhannwch y dysgwyr yn barau neu'n grwpiau o dri. Rhowch ddarn mawr o bapur i bob grŵp.
- Yn eu grwpiau, dylai'r dysgwyr dynnu llinell amser ar y darn mawr o bapur (gweler y diagram isod). Fel arall, gallech ddosbarthu copïau A3 o'r templed a ddarperir yn Dyfodol delfrydol (Taflen gweithgaredd 3).
- Ar y llinell amser is, dylai'r dysgwyr nodi'r pethau y maent yn meddwl a fydd yn debygol o ddigwydd mewn perthynas â chydraddoldeb rhwng y rhywiau. Gellir cynrychioli'r newidiadau hyn mewn amrywiaeth o ffyrdd, er enghraifft mewn geiriau, neu ar ffurf darluniau neu ddelweddau wedi'u torri allan. Ar hyd y llinell amser uchaf, dylai'r dysgwyr ychwanegu'r pethau y byddai'n well ganddynt eu gweld yn digwydd.



- Caniatewch amser i'r dysgwyr rannu eu llinellau amser a'u syniadau am y dyfodol â grwpiau eraill. Ymhlith y cwestiynau trafod posibl y mae:
  - Pa newidiadau ar gyfer dynion a menywod yr ydych yn meddwl sydd fwyaf tebygol o ddigwydd?
  - Beth a fyddai'n well gennych ei weld yn digwydd?
  - A oes unrhyw un arall yn rhannu eich gweledigaeth ar gyfer y dyfodol? Os oes, pwy? Gall yr unigolyn hwn fod yn rhywun yn eich dosbarth, eich ysgol neu eich cymuned, neu'n berson enwog.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

- Pa bethau y bydd yn ofynnol iddynt newid os yw'r dyfodol yr ydych yn ei ffafrio yn mynd i ddod yn realiti? Pa heriau sydd yna, a sut y gellid goresgyn y rhain?
- Pwy sy'n gweithredu i greu dyfodol o'r fath? Pwy arall a ddylai fod yn gweithredu?
- Sut y gallwn ni ein hunain gyfrannu at y dyfodol a ffefrir hwn?
- Beth a fydd yn digwydd os na chymerir unrhyw gamau?

Gwahaniaethu

- Gwneud pethau'n haws: Gofynnwch i'r dysgwyr ganolbwyntio ar enghraifft benodol o anghydraddoldeb rhwng y rhywiau, er enghraifft addysg merched, yn hytrach nag ar y mater yn gyffredinol.
- Gwneud pethau'n anos: Gofynnwch i'r dysgwyr ymestyn y llinell amser i'r chwith (fel y dangosir yn y diagram), gan fynd yn ôl mewn amser cyn y presennol. Gallent wedyn anodi'r llinell hon i ddangos newidiadau sydd wedi digwydd mewn perthynas â chydraddoldeb rhwng y rhywiau yn y gorffennol.

Dymchwel y brics (45 munud+)

Nod: nodi a thrafod enghreifftiau o anghydraddoldeb rhwng y rhywiau yn ysgol a chymuned y dysgwyr eu hunain, cyn meddwl yn feirniadol am ba gamau y gellid eu cymryd i oresgyn y rhwystrau hyn.

Nodwch: Mae'n bwysig ei gwneud yn eglur i'r dysgwyr fod gweithredu yn rhywbeth gwirfoddol. Nid yw ymgyrchu at ddant pawb, ac mae'n gwbl dderbyniol os yw'r dysgwyr am ddarganfod rhagor am fater yn hytrach na gweithredu. Fodd bynnag, mae'n debyg y gwelwch y bydd dysgu am y mater hwn yn golygu y bydd llawer o'ch dysgwyr yn dymuno ymateb mewn ffyrdd gweithredol. Gall gweithredu fod yn ymateb priodol a grymusol o du pobl ifanc i faterion byd-eang mewn bywyd go iawn wrth iddynt gael y profiad o fod yn rhan o'r broses o sicrhau newid sy'n gwella bywydau'r bobl sy'n byw mewn tlodi.

Mae'r gweithgaredd hwn wedi cael ei addasu o'r gweithgaredd Brics a morthwylion yn Byd-Weithio!, canllaw i athrawon ar y modd i hwyluso dinasyddiaeth fyd-eang weithredol (gweler t. 42): www.oxfam.org.uk/education/resources/get-global

- Gofynnwch i'r dysgwyr awgrymu ffyrdd y mae bywyd a chyfleoedd i ferched a bechgyn yn anghyfartal yn eu hysgol (neu eu cymuned). Er enghraifft, gallai hyn ymwneud â'r gallu i gymryd rhan mewn rhai chwaraeon, cyfrannau'r gwrywod a benywod sy'n cymryd rhai pynciau TGAU, neu enghreifftiau mwy uniongyrchol o ragfarn neu wahaniaethu trwy'r defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol. Efallai yr hoffech ganiatáu amser i'r dysgwyr drafod eu syniadau mewn parau neu grwpiau bach yn gyntaf cyn rhannu a chofnodi eu syniadau mewn trafodaeth grŵp cyfan.
- Trefnwch y dysgwyr yn grwpiau bach, a rhowch ddarn mawr o bapur i bob grŵp. Gofynnwch iddynt dynnu llun wal frics ar eu papur (gweler yr enghraifft isod). Dylent wedyn labelu pob bricsen gydag un o'r enghreifftiau o anghydraddoldeb rhwng y rhywiau a nodwyd yn flaenorol.
- Yna, dylai'r dysgwyr wneud morthwylion papur i ddymchwel y brics hyn. Darperir templed yn Morthwylion (Taflen gweithgaredd 4). Ar bob morthwyl, dylent ysgrifennu gweithred y gellid ei rhoi ar waith i oresgyn y mater hwn a gwneud bywyd yn decach.
- Yn weithgaredd dilynol, gellid cefnogi'r dysgwyr i ddewis, cynllunio a chyflawni rhai o'r camau hyn i hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau yn eu hysgol (neu eu cymuned).

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.



Syniadau pellach

- Gallai'r dysgwyr ddefnyddio'r Rhyngrwyd i archwilio'r targedau ar gyfer cydraddoldeb rhwng y rhywiau a amlinellir yn y Nodau Datblygu Cynaliadwy. Pa mor dda y mae dysgwyr yn meddwl y bydd y targedau hyn o ran helpu i gyflawni'r dyfodol yr hoffent ei weld?

  www.undp.org/content/undp/en/home/sustainable-development-goals/goal-5-gender-equality/targets/

- Defnyddiwch gadwyn pam-pam-pam i helpu'r dysgwyr i feddwl yn feirniadol am achosion posibl enghreifftiau penodol o anghydraddoldeb rhwng y rhywiau, er enghraifft mynediad i addysg, a hynny trwy ofyn cwestiynau sy'n dechrau gyda'r gair 'pam', dro ar ôl tro. I gael manylion pellach, gweler t. 12 o gyhoeddiad Oxfam, Dinasyddiaeth Fyd-eang yn yr Ystafell Ddosbarth: Canllaw i athrawon.

  www.oxfam.org.uk/cy-GB/education/resources/global-citizenship-in-the-classroom-a-guide-for-teachers

- Defnyddiwch goeden materion i gynorthwyo'r dysgwyr i archwilio achosion ac effeithiau (neu symptomau) anghydraddoldeb rhwng y rhywiau ac atebion posibl. I gael manylion pellach, gweler t. 13 o gyhoeddiad Oxfam, Dinasyddiaeth Fyd-eang yn yr Ystafell Ddosbarth: Canllaw i athrawon.

  www.oxfam.org.uk/cy-GB/education/resources/global-citizenship-in-the-classroom-a-guide-for-teachers

- Gallai'r dysgwyr ddarganfod rhagor am rai o'r ffyrdd y mae pobl ledled y byd yn gweithredu dros gydraddoldeb rhwng y rhywiau. Dyma enghreifftiau:
  - Y mudiad HeForShe: www.heforshe.org/en/movement*
  - Womankind Worldwide: www.womankind.org.uk
  - Women's March: womensmarch.com
  - Yr ymgyrch Poverty is Sexist gan ONE: www.one.org/international/take-action/poverty-is-sexist/#*

  *O ran diogelu, byddwch yn ymwybodol bod yr ymgyrchoedd hyn yn annog pobl i arwyddo a rhannu eu manylion cyswllt.

Dolenni ac Adnoddau defnyddiol eraill

- **Prosiect Parchu Rhywedd**

  Rhowch gynnig ar weithgareddau a syniadau addysgu eraill o'r Gender Respect Project. Nod y prosiect hwn, dan arweiniad DECSY, yw helpu plant a phobl ifanc i ddeall, cwestiynu a herio anghydraddoldeb rhwng y rhywiau a thrais, a hynny mewn cyd-destunau lleol a byd-eang.

  genderrespect2013.wordpress.com/teaching-ideas

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

- ***Byd-Weithio!***

  Mynnwch olwg ar Byd-Weithio! i gael cyfoeth o syniadau ar sut i hwyluso dinasyddiaeth fyd-eang weithredol. Rhowch gymorth i'r dysgwyr symud o feddwl yn feirniadol am faterion sy'n bwysig iddynt i gynllunio a chymryd rhan mewn camau gweithredu, a myfyrio ar eu perfformiad ac asesu eu gwaith.

  www.oxfam.org.uk/education/resources/get-global

- **Y Nodau Datblygu Cynaliadwy: Canllaw i athrawon**

  Mae'r Nodau Datblygu Cynaliadwy yn set o nodau a thargedau uchelgeisiol a brys sy'n anelu at newid ein byd er gwell. Mae cydraddoldeb rhwng y rhywiau wrth wraidd y broses o gyflawni'r Nodau Datblygu Cynaliadwy. Yn llawn cyngor ymarferol, gwybodaeth ddefnyddiol, syniadau ar gyfer gweithgareddau trawsgwricwlaidd ac astudiaethau achos ysbrydoledig, mae'r canllaw hwn yn anelu at ddyfnhau dealltwriaeth athrawon o addysg am y Nodau Datblygu Cynaliadwy, ac ar eu cyfer.

  www.oxfam.org.uk/education/resources/the-sustainable-development-goals

- **Addysgu Pynciau Llosg**

  I gael arweiniad, strategaethau ystafell ddosbarth a gweithgareddau addysgu ymarferol ar gyfer rheoli materion dadleuol yn yr ystafell ddosbarth, gweler canllaw Oxfam, Addysgu Materion Dadleuol, a ddiweddarwyd yn ddiweddar.

  www.oxfam.org.uk/education/resources/teaching-controversial-issues

- **FYS Forums**

  Mae'r platfform ar-lein hwn yn darparu syniadau, methodolegau ac adnoddau addysgu ar gyfer archwilio materion rhywedd trwy fforymau ieuenctid. Efallai yr hoffai'r dysgwyr redeg fforwm gydag ysgolion eraill yn eu cymuned leol.

  fys-forums.eu/en/fys-toolkit/forum-curriculum

- **Diwrnod Rhyngwladol y Menywod**

  Mynnwch gael gwybod rhagor am Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod, thema'r ymgyrch eleni, a'r digwyddiadau sy'n cael eu cynnal ledled y byd i gydnabod cyflawniadau menywod a merched, yn ogystal ag i alw am weithredu pellach i leihau'r anghydraddoldebau rhwng y rhywiau sy'n bodoli yn ein cymdeithas.

  www.internationalwomensday.com

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB

Gallwch ddefnyddio lluniau a gwybodaeth berthnasol yn yr adnodd hwn i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn ei defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect hwnnw ei gyflawni.

Equibingo

Taflen gweithgaredd 1

Dewch o hyd i rywun sy'n:

1. **Gallu enwi seren chwaraeon fenywaidd enwog.** Enw'r dysgwr: Ateb:	2. **Gallu enwi prif weinidog neu lywydd benywaidd.** Enw'r dysgwr: Ateb:	3. **Gallu enwi dawnsiwr gwrywaidd enwog.** Enw'r dysgwr: Ateb:
4. Gallu enwi busnes neu frand byd-eang a reolir gan fenyw. Enw'r dysgwr: Ateb:	**5. Gallu enwi gwyddonydd benywaidd enwog.** Enw'r dysgwr: Ateb:	**6. Gallu enwi archarwr benywaidd o ffilm neu gomic.** Enw'r dysgwr: Ateb:
7. Gallu enwi dyfais bwysig gan fenyw. Enw'r dysgwr: Ateb:	**8. Adnabod rhywun y mae ei dad wedi/yn gofalu am y cartref a'r teulu.** Enw'r dysgwr: Ateb:	**9. Gallu enwi ymgyrchydd amlwg dros gydraddoldeb rhwng y rhywiau.** Enw'r dysgwr: Ateb:
10. Gallu enwi'r flwyddyn yr enillodd menywod yr hawl i bleidleisio yn y Deyrnas Unedig gyntaf. Enw'r dysgwr: Ateb:	**11. Gallu enwi pa un o'r Nodau Datblygu Cynaliadwy sy'n mynd i'r afael â chydraddoldeb rhwng y rhywiau.** Enw'r dysgwr: Ateb:	**12. Gwybod pryd y mae Diwrnod Rhyngwladol y Menywod.** Enw'r dysgwr: Ateb:

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Cardiau chwarae rôl

Taflen gweithgaredd 2a

Ar ôl gyrfa lwyddiannus ym myd busnes, rwyt ti wedi dod yn wleidydd yn Rwanda. Rwyt yn fam i ddau o blant, mae gennyt ddylanwad, a gelli fforddio popeth y mae arnoch ei angen.	Rwyt yn fenyw briod sy'n byw yn y Deyrnas Unedig. Mae gennyt bedwar o blant. Mae dy ŵr yn gweithio ac mae'n cael cyflog da. Hoffet allu gweithio, ond mae'n anodd i ti ddod o hyd i swydd sy'n rhoi'r oriau y mae arnat eu hangen i ollwng a chasglu'r plant.
Rwyt yn fenyw 23 oed sy'n byw yn India. Mae nam wedi bod ar dy olwg ers dy eni. Byddet wrth dy fodd yn cael bod yn athrawes, ond nid oeddet wedi gallu mynd i'r ysgol pan oeddet yn iau oherwydd dy anabledd. Rwyt yn byw gyda dy deulu, ac yn helpu gyda'r gwaith tŷ ac i ofalu am dy frodyr a chwiorydd iau.	Rwyt yn weithiwr gofal gwrywaidd, sy'n gofalu am bobl oedrannus mewn cartref preswyl yn y Deyrnas Unedig. Cefaist dy gyflogi trwy asiantaeth yng Ngwlad Pwyl, sef dy famwlad, a threfnodd yr asiantaeth y swydd ar dy gyfer. Mae dy gyflog islaw'r isafswm cyflog oherwydd y goramser di-dâl yr wyt yn ei weithio; rwyt yn aml yn gweithio 50 neu 60 awr yr wythnos.
Rwyt yn rheolwr cronfa fantoli ar gyfer cwmni ynni yn UDA, gan reoli asedau gwerth £3 biliwn. Rwyt yn graig o arian, ac yn un o'r 25 o reolwyr cronfa fantoli cyfoethocaf yn y byd. Rwyt yn dad i ddwy ferch fach.	Rwyt yn weithiwr dilladau benywaidd mewn ffatri ym Mangladesh, sy'n gyflenwr ar gyfer cadwyn archfarchnad fawr. Rwyt yn cael dy drin yn wael, ac yn aml yn gweithio sifftiau hir heb hyd yn oed seibiant i fynd i'r toiled. Nid yw'n anarferol i'r cwmni 'anghofio' talu i ti am oramser. Ond rhaid i ti gadw dy swydd. Nid oes gennyt syniad sut y byddai dy deulu'n ymdopi heb dy incwm.
Rwyt yn gyfrifydd benywaidd sy'n gweithio i gwmni teithio rhyngwladol yn ninas Mumbai (Bombay) yn India. Mae gennyt fflat braf, ac rwyt yn byw yn eithaf cyfforddus ar dy gyflog. Rwyt yn ystyried dechrau teulu.	Rwyt yn fam sengl i dri o blant ifanc, ac yn byw yn y Deyrnas Unedig. Hoffet weithio ond ni elli fforddio cost gofal plant. Rwyt yn cael cymorth ariannol gan y llywodraeth, ond mae'r budd-daliadau wedi cael eu torri'n ddiweddar, ac rwyt yn poeni am allu talu'r biliau. Weithiau byddi'n mynd heb fwyd fel bod gan dy blant ddigon i'w fwyta.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Cardiau chwarae rôl

Taflen gweithgaredd 2b

Rwyt yn gyflogai gwrywaidd i sefydliad hawliau dynol cenedlaethol, sy'n gweithio yn Affganistan. Rwyt yn gwneud gwaith peryglus, ac yn gweithio oriau hir iawn am gyflog bach. Nid wyt yn briod ac nid oes gennyt blant.	Rwyt yn athro gwrywaidd mewn ysgol dinas fewnol ym Mrasil. Nid oes gan dy ysgol lawer o adnoddau, a byddet wrth dy fodd pe byddai yna ragor o arian ar gael ar gyfer addysg. Dy ddymuniad erioed oedd bod yn athro, ond rwyt wedi cael dy wthio i ymdopi yn ddiweddar oherwydd bod costau byw yn codi'n gyflymach nag incwm pobl.
Rwyt yn ferch 12 oed o deulu ffermwr, sy'n byw yng nghefn gwlad Ethiopia. Rwyt wedi cael dy dynnu allan o'r ysgol oherwydd bod ar dy fam angen help i gasglu dŵr a choed tân. Mae'r daith gerdded i gasglu'r rhain yn mynd yn hirach bob mis.	Rwyt yn fab yn dy arddegau i brif weithredwr cwmni gweithgynhyrchu mawr yn Nigeria. Rwyt yn mynd i ysgol breifat ac, ar hyn o bryd, rwyt wrthi'n gwneud cais i fynd i'r brifysgol.
Rwyt yn ddyn priod, â phedwar o blant, ac yn rhedeg canolfan fwyd mewn tref fechan yn Irac. Collaist un o dy freichiau o ganlyniad i haint ond mae gennyt incwm da.	Rwyt yn newyddiadurwraig ar gyfer papur newydd cenedlaethol yn y Deyrnas Unedig. Rwyt wedi gweithio'n galed ar gyfer dy swydd. Mae gennyt ferch fach, ac rwyt yn gobeithio y bydd ganddi gyfleoedd tebyg yn y dyfodol.
Rwyt yn ffermwr ymgynhaliol gwrywaidd sy'n tyfu reis ym Mhacistan. Dim ond digon o fwyd i ti a dy deulu ei fwyta yr wyt yn gallu ei dyfu. Byddet yn hoffi i dy blant gael addysg a rhagor o gyfleoedd mewn bywyd nag a gefaist ti.	Rwyt yn ddyn 31 oed sy'n byw ym Mheriw. Cefaist dy anafu mewn damwain ddiwydiannol dair blynedd yn ôl, ac ni elli weithio mwyach. Nid wyt yn cael unrhyw fudd-dal anabledd, a rhaid i ti ddibynnu ar gardota a chymorth gan deulu a ffrindiau i ddod i ben.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Dyfodol delfrydol

Taflen gweithgaredd 3



Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

OXFAM

Morthwylion

Taflen gweithgaredd 4









Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.